Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Ymateb gan Arolygiaeth Gofal Cymru

## Ymchwiliad i ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yn yr ystâd carchardai i oedolion

Diolch am y gwahoddiad i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) gyflwyno tystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor i ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yn yr ystâd carchardai i oedolion.

Er mwyn llywio ystyriaethau'r Pwyllgor, rydym wedi nodi'r cyd-destun y mae AGC yn ei gymhwyso wrth gofrestru, rheoleiddio ac arolygu'r ystâd carchardai i oedolion yng Nghymru. Rydym wedi nodi rhywfaint o wybodaeth sylfaenol am y sector a'n gweithgarwch ynddo.

### Rôl AGC

Rydym yn cofrestru, yn arolygu ac yn gweithio i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal cymdeithasol er llesiant pobl Cymru, gan gynnwys oedolion sy'n garcharorion. Rydym yn penderfynu pwy sy'n gallu darparu gwasanaethau; yn cymryd camau i sicrhau bod gwasanaethau'n bodloni gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol; ac yn ymchwilio i bryderon a godir am wasanaethau rheoleiddiedig. Rydym yn cyflawni ein swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru. Diogelir ein hannibyniaeth drwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Prif Arolygydd a Gweinidogion perthnasol Cymru.

### Y sector

| Awdurdod Lleol | Bwrdd Iechyd | Carchardai Ei Mawrhydi (CEM) | Gwasanaethau a rheoleiddir gan AGC ar 31 Gorffennaf 2019 |
|---|---|---|---|
| Sir Fynwy | Aneurin Bevan | Brynbuga a Phresgoed | Gofal yn y Cartref |
| Caerdydd | Caerdydd a'r Fro | Caerdydd | Dim |
| Abertawe | Bae Abertawe | Abertawe | Dim |
| Wrecsam | Betsi Cadwaladr | Berwyn | Dim |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Cwm Taf Morgannwg | Parc (sector preifat) | Dim |

### Y ddeddfwriaeth

Gwnaeth rhan 11 (adrannau 185 – 188) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014) ddarpariaethau mewn perthynas â charchardai i oedolion, llety cadw ieuenctid, safleoedd a gymeradwywyd a llety mechnïaeth. Mae'r cod ymarfer ar Amrywiol a Chyffredinol mewn perthynas â rhan 11 yn ategu'r Ddeddf ac yn nodi'r gofynion ar awdurdodau lleol wrth iddynt arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas ag oedolion sy'n garcharorion.

Cyflwynodd y Ddeddf ddyletswyddau ar awdurdodau lleol i atal anghenion gofal a chymorth rhag mynd yn waeth ac i ddarparu asesiadau a gwasanaethau gofal a chymorth i oedolion yn yr ystâd ddiogel ar sail cyfwerthedd â phobl sy'n byw yn y gymuned. Mae'r dyletswyddau hyn yn bodoli ni waeth ble roeddent yn byw fel arfer yng Nghymru, neu yn rhywle arall cyn eu cadw.

Gall awdurdodau lleol gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth, neu drefnu i eraill ddarparu neu ddirprwyo'r gwaith o gyflawni'r swyddogaeth i barti arall, ond yr awdurdod lleol fydd yn gyfrifol am gyflawni'r ddyletswydd o hyd.

O dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Deddf 2016), mae'n ofynnol i unrhyw berson sy'n darparu "gwasanaeth rheoleiddiedig" gofrestru ag AGC. Y gwasanaethau rheoleiddiedig perthnasol ar gyfer yr ystad ddiogel i oedolion yw Gwasanaethau Cymorth yn y Cartref. Nodir diffiniadau'r gwasanaethau rheoleiddiedig hyn o dan Atodlen 1 o Ddeddf 2016. Mae person sy'n rheoli carchar neu sefydliad carcharu tebyg wedi'i eithrio o'r diffiniad os yw'n darparu gofal a chymorth dan gontract yn uniongyrchol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i'r unigolion a gedwir yno.

## Arolygu

Caiff gwasanaethau carchardai a phrawf eu harolygu gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yng Nghymru a Lloegr ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. Yng Nghymru, mae AGC, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn cydweithio ag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yng Nghymru a Lloegr ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi i gyfrannu at yr arolygiadau hyn. **Dylai** awdurdodau lleol sicrhau bod unrhyw asesiadau a dogfennau perthnasol eraill ar gael i gyrff arolygu fel rhan o unrhyw arolygiad o'r fath.

Ni chaiff gofal a chymorth a ddarperir gan garchar yn y sector cyhoeddus neu'r sector preifat lle y caiff y gofal ei gontractio yn uniongyrchol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder fel cyfraniad at gyflawni cynllun gofal a chymorth unigol eu rheoleiddio gan AGC, ond gellir eu harolygu gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yng Nghymru a Lloegr.

## Gweithgareddau AGC hyd yn hyn

Ers i Ddeddf 2014 gael ei rhoi ar waith ym mis Ebrill 2016, mae AGC wedi ymuno ag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yng Nghymru a Lloegr i gynnal adolygiad thematig o ofal cymdeithasol mewn carchardai yng Nghymru a Lloegr. Y bwriad i ddechrau oedd i'r adolygiad ganolbwyntio ar Loegr yn unig. Fodd bynnag, yn dilyn arolygiad cyffredinol gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yng Nghymru a Lloegr yng Ngharchardai Ei Mawrhydi Brynbuga a Phresgoed, nodwyd arfer cadarnhaol mewn perthynas â darparu gofal cymdeithasol yng Nghymru. O ganlyniad, cysylltwyd ag AGC a chytunodd i gymryd rhan mewn gwaith maes pellach yng Nghymru. Dewiswyd Carchar Ei Mawrhydi Caerdydd gydag AGC yn cyfrannu at y gwaith maes yn y carchar ac mewn cyfweliadau â swyddogion perthnasol o Gyngor

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

Dinas Caerdydd.[1] Nodwyd arfer cadarnhaol pellach mewn perthynas ag asesu a chynllunio gofal. Mae canfyddiadau'r arolygiad hwn wedi cael eu cynnwys mewn adroddiad thematig a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2018.

Gofal cymdeithasol mewn carchardai yng Nghymru a Lloegr – Adroddiad thematig mis Hydref 2018:
https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/wp-content/uploads/sites/4/2018/10/Social-care-thematic-2018-web.pdf

Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad, cytunwyd ar gynllun gweithredu.

Cynllun Gweithredu: Adroddiad Thematig Carchardai Ei Mawrhydi – Gofal Cymdeithasol mewn Carchardai yng Nghymru a Lloegr:
https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/wp-content/uploads/sites/4/2018/10/Action-Plan-Social-Care-in-Prisons.pdfhttps:/www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/wp-content/uploads/sites/4/2018/10/Action-Plan-Social-Care-in-Prisons.pdf

Mae'r gwaith o roi argymhellion perthnasol ar waith yn cael ei ystyried ar hyn o bryd gydag awdurdodau lleol perthnasol yng Nghymru drwy weithgareddau adolygu perfformiad arferol AGC. At hynny, mae cohort o garcharorion a staff gofal cymdeithasol wedi cymryd rhan mewn grŵp ffocws yn ystod ein harolygiad thematig: gweithgarwch ataliol a hybu annibyniaeth i oedolion hŷn. Mae'n rhy gynnar i wneud sylwadau ar ganlyniadau'r gweithgareddau hyn ar hyn o bryd.

Er mwyn llywio ein gweithgareddau adolygu perfformiad, mae AGC wedi cynnal arolwg anffurfiol yn ddiweddar gydag awdurdodau lleol perthnasol ynglŷn â threfniadau ar gyfer darparu gofal a chymorth ar draws yr ystad ddiogel i oedolion yng Nghymru.

| **Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi** | **Trefniadau presennol** | **Sylwadau** |
|---|---|---|
| Carchar Ei Mawrhydi Caerdydd | Darperir drwy gynorthwywyr gofal iechyd ar hyn o bryd (Bwrdd Iechyd) | Mae lefel yr angen am ofal cymdeithasol yn isel oherwydd natur dros dro y boblogaeth o garcharorion. Mae cwmpas y trefniadau wrth gefn wedi cael ei bennu ac, os bydd angen, byddai "tîm mewnol" yr awdurdod lleol yn darparu cymorth yn y cartref. |

[1] Cyflawnwyd gwaith maes arolygu thematig (Rhagfyr 2017) cyn i Ddeddf 2016 gael ei rhoi ar waith. Er bod dyletswyddau awdurdodau lleol mewn perthynas â gofal cymdeithasol o dan Ddeddf 2014 wedi dechrau, nid oedd gofyn i ddarparwyr gwasanaethau iechyd a oedd yn darparu gofal cymdeithasol mewn carchardai yng Nghymru gofrestru ag AGC ar yr adeg honno.

| **Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi** | **Trefniadau presennol** | **Sylwadau** |
|---|---|---|
| Carchar Ei Mawrhydi Brynbuga a Phresgoed | Gofal yn y cartref gan "dîm mewnol" yr awdurdod lleol yn ôl yr angen.<br>Mae ganddo hefyd gynllun 'cyfeillio' er mwyn i garcharorion ddarparu cymorth i garcharorion eraill (PSI 17/15). | Mae'r galw yn isel. |
| Carchar Ei Mawrhydi Berwyn | Darperir drwy gynorthwywyr gofal iechyd ar hyn o bryd (Bwrdd Iechyd). | Galw cyfyngedig hyd yn hyn; petai'r galw yn cynyddu, byddai angen trefniadau ffurfiol. |
| Carchar Ei Mawrhydi Parc | Comisiynir gan yr awdurdod lleol, darperir gan G4S Healthcare. | Mae trefniadau'n cael eu hadolygu – trafodaethau rhwng AGC, yr awdurdod lleol, G4S a Llywodraeth Cymru yn ymwneud â chofrestru'r gwasanaeth. |
| Carchar Ei Mawrhydi Abertawe | Dim | Ni ofynnwyd am gymorth; bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu pwy fydd yn darparu cymorth os daw cais i law. |

*Ers mis Chwefror 2019, mae gwasanaeth cymorth yn y cartref "mewnol" Cyngor Sir Fynwy wedi cael ei gofrestru ag AGC o dan Ddeddf 2016. Mae datganiad o ddiben y gwasanaeth hwn yn cynnwys darparu gwasanaethau gofal yn y cartref i garcharorion yng Ngharchar Ei Mawrhydi Brynbuga a Phresgoed. Nid yw wedi bod yn angenrheidiol cynnal arolygiad a drefnwyd o'r gwasanaeth hwn eto. Mae'r gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau ar hyn o bryd.